(HCC 595)

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 5 Medi 2014 am 10.30am.**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander a Helen Minnice-Smith, Llywodraeth Cymru

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Siôn Aron Jones (Rheolwr Datblygu'r Diwydiant)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Jo Horder (Polisi a Strategaeth Cig Coch) – Eitem 13

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Gorffennaf 2014*

Roedd y Cadeirydd yn aelod o'r panel cyfweld i benodi Ysgolorion HCC ar gyfer 2014 / 2015.

Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod Gwobrwyo Cigoedd a Physgod Tra Rhagorol, wedi'i drefnu gan y *Meat Trades Journal* yn Llundain. Roedd y digwyddiad yn gyfle i rwydweithio â'r prif fân-werthwyr a phroseswyr.

Bu'r Cadeirydd yn Sioe Frenhinol Cymru a bu'n cynrychioli HCC mewn sawl digwyddiad.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i'r staff am fod yn broffesiynol a gweithio'n galed drwy gydol yr wythnos. Roedd hyn yn gyfraniad pwysig tuag at sioe lwyddiannus arall i HCC.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn nigwyddiad defaid yr NSA a gynhaliwyd ar Faes Sioe'r Tair Sir yn Malvern.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Will Haresign a Richard Tudor, Aelodau o’r Bwrdd, a Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Llun 7 Gorffennaf 2014 (HCC 588)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 7 Gorffennaf 2014 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru – Statws Enw Bwyd Gwarchodedig i is-frandiau Cig Oen a Chig Eidion yng Nghymru*

Dywedodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fod HCC wedi cyfarfod ag ADAS, sef y sefydliad sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru i ysgogi ceisiadau Enwau Bwyd Gwarchodedig, i drafod ceisiadau arfaethedig sy'n ymwneud â chig coch.

Pwysleisiodd HCC yn gryf y gallai bwrw ymlaen â cheisiadau is-frand o’r fath wanhau a niweidio lleoliad brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

Cytunwyd y dylid codi’r mater yn uniongyrchol ag Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru.

*Tendr Consortiwm Prynu Cymru a Chig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI mewn sefydliadau Awdurdodau Lleol ac Iechyd*

Cynhaliwyd cyfarfod â chynrychiolydd o’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Datgelwyd bod £74.5 miliwn yn cael ei wario ar fwyd gan y Sector Cyhoeddus yng Nghymru - y gyfran uchaf ar gig coch sy'n werth £11 miliwn. Mae 40% o hyn yn gig o Gymru.

Parhaodd trafodaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ynghylch cynnig i gynyddu cyfran y bwydydd o Gymru i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru, ond hefyd i leihau costau Byddai hynny’n golygu:

- Gweithio gyda chynhyrchwyr er mwyn eu cael 'yn barod ar gyfer y farchnad'.
- Prynu mewnol ar gyfer yr holl fwyd yn y sector cyhoeddus
- Pennu systemau a phrosesau (e.e. archebu yn ôl bwydlenni penodol)

Byddai HCC yn cadw llygad ar hyn.

*Hollti Carcasau Cig Oen ar gyfer mamogiaid dau ddant*

Anfonwyd llythyr at Tim Bennett, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ynglŷn â'r uchod. Ni chafwyd ymateb mor belled.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 589)*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen.

*Cyfathrebu*

Roedd presenoldeb HCC mewn derbyniad ar gyfer newyddiadurwyr NATO yn Nhŷ Tredegar, Caerdydd a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, yn llwyddiant. Roedd gan HCC gegin arddangos yno er mwyn cynnig tameidiau blasus o Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI i westeion.

Roedd Cig Oen Cymru PGI ar y fwydlen hefyd ar gyfer y prif gwrs yn y cinio swyddogol yng Nghastell Caerdydd ar gyfer yr holl Benaethiaid Gwladol, a oedd yn cynnwys Arlywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama; a Phrif Weinidog Prydain, David Cameron.

Nodwyd bod uwch-gynhadledd NATO, ynghyd a digwyddiadau cynharach ym Mrwsel, pan gyflenwyd Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI gan HCC, wedi rhoi cyhoeddusrwydd da i'r brandiau.

*Sioe Frenhinol Cymru 2014*

Croesawodd y Rheolwr Cyfathrebu adborth y Bwrdd mewn perthynas â phresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru.

Roedd y Bwrdd am ganmol dyluniad y stondinau Corfforaethol a Datblygu'r Diwydiant a chanmolwyd y gweithgareddau a'r gwaith caled gan y staff yn ystod y sioe.

*Cynhadledd Flynyddol HCC*

Câi'r Bwrdd ei wahodd i'r cinio cyn cynhadledd HCC yng Ngwesty Parc y Strade nos Fercher 12 Tachwedd 2014.

Byddai'r gynhadledd eleni yn para drwy'r dydd ac fe'i cynhelid ym Mharc y Scarlets, Llanelli, ddydd Iau 13 Tachwedd 2014.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys:-

Y Dirprwy Weinidog, Rebecca Evans AC
Kate Humble - Cyflwynydd teledu ac awdur sy'n ffermio yn Sir Fynwy
Jeff Martin – Asiant HCC yn yr Eidal
Siôn Aron Jones - Rheolwr Datblygu'r Diwydiant yn HCC
Shaun Hall Jones a Thomas Jones - Ysgolorion HCC

Byddai dau sesiwn gweithdy yn cael eu trefnu, yn seiliedig ar Wybodaeth am y Farchnad, ac arddangosiad torri cig.

*Ymchwil Marchnata - yr Iseldiroedd*

Byddai crynodeb gweithredol ar gyfleoedd i ddiwydiant cig coch Cymru yn yr Iseldiroedd yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 590)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2014 (HCC 591)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol y crynodeb Incwm a Gwariant, a oedd â fformat diwygiedig. Roedd data hanesyddol cymharol wedi cael eu hail ddadansoddi er mwyn rhoi cymariaethau ystyrlon o dan y fformat newydd.

Dyfarnwyd cyllid grant o £900,000 o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2007 – 2013 gan Lywodraeth Cymru, a chafodd y gyllideb ei hadlinio er mwyn adlewyrchu hyn.

Chwarter 1 – yn unol â'r hyn a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â ffigurau cyllideb wedi'u cymeradwyo yn y Cynllun Busnes.

Chwarter 2 – cyflwynwyd i adlewyrchu'r ffigurau cyllideb diwygiedig, gan ystyried y newid i'r cyllidebau i adlewyrchu'r arian ychwanegol o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Cymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer blwyddyn 2014 / 2015 y Cynllun Busnes.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 592)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

7. **I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2014 ar gyfer Defnyddwyr**

Rhoddodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fanylion am yr ymgyrch gan HCC, a fyddai'n rhedeg eleni o fis Hydref tan ganol Rhagfyr 2014.

Nodwyd y byddai'r ymgyrch yn dechrau'n gynharach er mwyn adlewyrchu pryderon ac anawsterau'r diwydiant ar hyn o bryd. Croesawyd hyn gan y Bwrdd.

Amcanion strategol yr ymgyrch oedd:-

- Codi ymwybyddiaeth o frand Cig Eidion Cymru
- Dylanwadu ar y cysyniadau o frand Cig Eidion Cymru – y cysyniad o Gig Eidion Cymru PGI fel cynnyrch o ansawdd
- Ymgysylltu â'r defnyddwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan
- Hybu gwerthiant Cig Eidion Cymru PGI.

Er mwyn dal i godi ymwybyddiaeth a chysyniad gyda defnyddwyr, byddai ymgyrch 2014 yn cynnwys:-

- Hysbysebion teledu ar S4C
- Gosod posteri mewn archfarchnadoedd
- Gweithgaredd digidol, cyfryngau cymdeithasol a gwefan
- Deunyddiau man gwerthu a chystadleuaeth-ar-becyn unigryw i ennill tocynnau rygbi'r Chwe Gwlad.

Byddai'r ymgyrch yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n annibynnol a rhoddid adroddiad i'r Bwrdd maes o law.

8. **I dderbyn diweddariad llafar am Adolygiad HCC o'r Sector Cig Eidion yng Nghymru**

Derbyniwyd drafft terfynol o'r adroddiad a châi ei adolygu maes o law.

Cynhelid digwyddiad i drosglwyddo canlyniad yr adolygiad, a byddai'r camau nesaf yn cael eu cymryd ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn ystod mis Hydref 2014.

9. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Nid oedd diweddariad i'w roi.

Roedd bwriad i gynnal cyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch (AHDB, HCC, LMCNI a QMS) yng Nghaerdydd ar 29 Medi 2014. Byddai'r Prif Weithredwr yn rhoi adroddiad wedyn i'r Bwrdd.

10. **I dderbyn gwybodaeth ar lafar am brosiectau wedi'u cymeradwyo i dderbyn arian ychwanegol trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig 2007 – 2014**

Cafodd dau Brosiect Estynedig Cynllun Datblygu Gwledig a gyflwynwyd gan HCC – "Diwallu Anghenion y Farchnad" (£540,000) a "Sicrhau'r Iechyd Gorau Posibl i Anifeiliaid" (£280,000) eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Byddai'r prosiect cyntaf yn cynnwys gwelliant i'r hyfforddiant Gweithdrefnau Rheoli Ansawdd mewn lladd-dai ac unedau torri cig bach neu ganolig eu maint. Hefyd, cynhelid digwyddiadau Dewis Da Byw ar ffermydd ac mewn marchnadoedd da byw er mwyn ategu'r digwyddiadau mewn lladd-dai. Byddai'r ail brosiect yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr defaid yng Nghymru ganfod yr ymwrthedd i foddion lladd llyngyr ar eu ffermydd. Hefyd, byddai HCC yn ymgymryd â phrosiect cadw golwg ar iechyd gyda ffermwyr a'u milfeddygon er mwyn dangos sut gall cynllunio iechyd gynyddu effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd.

Byddai'r prosiectau'n cael eu monitro a'u gwerthuso a byddai'n rhaid cwblhau'r holl weithgarwch erbyn Mehefin 2015.

Roedd disgwyl cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflwyniad ar wahân gan HCC ar amrywiad prosiect Datblygiad Technegol Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi – *Cael Gwared ar Rwystrau i Gymeriant Cofnodi Defaid Trwy Ddulliau Electronig* (£970,000).

11. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch datblygu Rhaglen Cig Coch ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020**

Roedd y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 yn gyfle pwysig i'r diwydiant cig coch wneud newid sylweddol ar draws y gadwyn gyflenwi er mwyn gwella effeithlonrwydd a phroffidioldeb.

Felly, byddai HCC yn cynnig cymryd camau yn ôl sector ar gyfer y diwydiant cig coch yng Nghymru, sef cyfres o ymyriadau gyda golwg ar y farchnad a gâi eu targedu'n fanwl ac a fyddai'n canolbwyntio ar fusnes. Byddent yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi gyfan ac yn gofalu'n benodol am anghenion strategol y sector cig coch yng Nghymru. Ar hyn o bryd roedd HCC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn symud ymlaen â hyn.

Croesawyd hyn gan y Bwrdd.

12. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid Eitem Agenda</u>**

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "EIDCymru: system electronig ar gyfer cofnodi symudiadau defaid a geifr - adnabod defaid a llacio'r rheolau lladd presennol" wedi dod i ben. Roedd disgwyl cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

13. **<u>I dderbyn dogfen drafod yn amlinellu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer diwydiant cig coch Cymru 2014 – 2020 (HCC 593)</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad ar y broses o adolygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y diwydiant cig coch a chymerwyd bod papur HCC 593 wedi'i ddarllen.

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Strategol presennol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru yn 2009 a gwnaed cynnydd sylweddol yn ôl y weledigaeth a'r amcanion a bennwyd bryd hynny.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2014 – 2020, adolygwyd diwydiant cig coch Cymru ac ystyriwyd y weledigaeth ar gyfer y sector cig coch yn y dyfodol gyda golwg ar yr heriau sylweddol sy'n wynebu pob rhan o'r gadwyn gyflenwi.

Y Blaenoriaethau Strategol ar gyfer y Cynllun Gweithredu 2014 / 2020 oedd:-

- Cynyddu'r galw am gynhyrchion cig coch Cymru (a thrwy hynny gynyddu gwerthiant ac enillion)

- Gwneud y cynhyrchu'n fwy effeithlon (a thrwy hynny gynyddu cyflenwad o ansawdd) ynghyd â chadw amgylchedd a thirwedd Cymru

Yr Amcanion Strategol ar gyfer y Cynllun Gweithredu 2014 / 2020 oedd:-

- Cynyddu (gwerth) enillion o werthiannau cynhyrchion cig coch Cymru
    - Cynyddu cyfran Cig Oen Cymru o gynnwys premiwm y farchnad fanwerth ym Mhrydain
    - Cynyddu gwerth blynyddol cig coch Cymru premiwm yn y farchnad fanwerth ym Mhrydain
    - Cynyddu gwerth allforion cig coch Cymru.

- Cynyddu cyfraniad sector cig coch Cymru i gynnyrch amaethyddol Cymru
    - Cynyddu nifer y carcasau sy'n ateb gofynion y farchnad
    - Gwella perfformiad cyfartalog y ddiadell ddefaid yn genedlaethol
    - Cynyddu perfformiad cyfartalog y fuches wartheg yn genedlaethol

- Cynyddu nifer y moch wedi pesgi yng Nghymru.

Nodwyd y llinell amser ar gyfer yr adolygiad fel a ganlyn:-

*2014*

| | | |
|---|---|---|
| Hydref | - | Ymgynghoriad answyddogol â rhanddeiliaid |
| Tachwedd | - | Y drafft cyntaf ar gyfer Bwrdd HCC |
| | - | Ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru |

*2015*

| | | |
|---|---|---|
| Rhagfyr / Ionawr | - | Ymgynghoriad ffurfiol â'r diwydiant |
| Chwefror | - | Y drafft terfynol |
| Mawrth | - | Cymeradwyaeth a chau pen y mwdwl gan Fwrdd HCC a Llywodraeth Cymru |
| Ebrill / Mai | - | Lansiad |

Byddai drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w ystyried yn y cyfarfod ar 7 Tachwedd 2014.

14. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Medi 2014*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 11 Mehefin 2014 (HCC 594)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 11 Mehefin 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

15. **Materion Bwrdd**

*Hyfforddiant Bwrdd – prynhawn 12 Tachwedd 2014 (cyn y Gynhadledd Flynyddol)*

Roedd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer hyfforddiant yn ystod prynhawn dydd Mercher 12 Tachwedd 2014. Byddai manylion pellach ar gael maes o law.

16. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

17. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 7 Tachwedd 2014.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**